Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 24th June 2025 at 6.30 pm
## Hybrid Meeting Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Carrie Townsend Jones (Chair), Sara Keeton, and Phil Keeton,

**Officers Present:** Ashley Haynes – Gardening Officer, and Ian Hughes – CSO

**EN2506-01** **Apologies:** Belated apologies received from Cllr Rebecca Fogarty

**EN2506-02** **Declarations of Interest:** Cllrs Phil and Sara Keeton declared a personal interest in relation West Cross Hedge Laying Workshop (agenda item **EN2506-09** refers), in addition Cllr Sara Keeton noted that she had provided money in her capacity as a SCC Councillor to the workshop.

**EN2506-03** **Minutes of Previous Meeting of the Committee**
To approve the minutes of the meeting held on 2nd June 2025 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 2nd June 2025 as a true record.

**EN2506-04** **Actions arising from Previous Meetings**
The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

**EN2506-05** **Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**
Summary of previous months activity and next steps for July. Report attached.

No Environmental Officer's report was prepared for June 2025. In the absence of Robert Hernando, Ashley Haynes provided a resume of his monthly duties. Ashley outlined that following a concerted effort with Robert to complete Jubilee Gardens he had settled back into his regular routine of maintaining the various sites within MCC for which he had responsibility. In addition, Ashley highlighted the plant boxes that he had created outside Ostreme.

Ashley was questioned by Councillors in relation to the development of The Norton Nature Reserve and Langland Tennis Court when it was established that Ashley understood that he was not responsible for maintaining the Basketball Courts. In addition, the option of raising the beds to an accessible height for disabled people was discussed.

**ACTION:** Together with Robert Hernando, to obtain quotes for installing fencing within Norton Nature Reserve and for other landscaping, in particular around the pond with a view to a budget proposal from being submitted in September 2025.

**ACTION:** CSO to email The Clerk and establish Ashley's duties within Langland Tennis Courts, in particular the Basketball Court. In addition to clarify the role of Welsh tennis Association in maintaining these courts.

**ACTION:** Ashley to obtain costings for the 'raising' of beds through the use of railway sleepers or other alternatives to assist disabled people to fully access them.

**EN2506-06** **Environment Officer – Work Plan**

Deferred to July 2025

**EN2506-07** **Climate Emergency Action Update**

The Chair, Cllr Townsend Jones outlined Robert Hernando's report on this issue which had been circulated prior to the meeting. The Committee was very impressed with the report and wished to follow the recommendations. In addition, a potential training opportunity was identified for SUDS training.

**RESOLVED:** To progress with the recommendations contained within the report from August 2025.

**RESOLVED:** The Clerk to assess whether any training opportunity for Robert and Ashley in relation to SUDS training is appropriate.

**EN2506-08** **Plastic Free July**

The Chair, Cllr Townsend Jones outlined how SCC had liaised with a number of businesses within Swansea including those in Swansea Market to promote Plastic Free

July. A discussion took place on how best to include business within MCC in this initiative. Due to time restraints any involvement by MCC would be restricted but could be promoted through publicity and encouraging traders to reduce packaging and coffee shops to encourage customers to bring re-fill cups through an additional saving when purchasing the drinks.

**RESOLVED**; Cllr Phil Keeton will liaise with Cllr Fogarty over stores including Marks and Spencers and The Co-Op in reducing their packaging

**ACTION;** CSO to email the Clerk and ascertain whether Claire Anderson, the Events Officer has the capacity at such short notice to promote an event within MCC to encourage more people to use re-usable coffee cups as detailed above.

**EN2506-09** **West Cross Hedge Laying Workshop (discussion re-funding)**

Cllr Phil Keeton set out the opportunities for hedge laying in The West Cross Area and thanked Cllr Sara Keeton for her liaison with SCC. A very rough cost estimate suggests that between £3,000 and £4,000 will be required for the project which would involve volunteers assisting. Catherine Thomas of SCC has indicated that between 60 and 70% should be available through match funding. In addition, Cllrs Sara Keeton and Rebecca Fogarty have offered £250 each to be provided from their SCC allowances. Cllrs Phil Keeton, Dave Lewis and Pam Erasmus have also indicated that they will provide £125 from their MCC allowances.

The issue of purchasing specific items, such as bill hooks which would be useful in the long term was discussed together with the difficulty of storing such items with limited storage space,

The committee agreed that this was a worthwhile project that required additional costings being obtained

**RESOLVED**; Cllr Phil Keeton to obtain costings, having liaised with SCC and bring the project back to the committee in October with a view to a budget proposal form being submitted.

**EN2505-10** **Bee Friendly Streets (weeding schedule)**

The Chair, Cllr Townsend Jones set out the importance of regular weeding dates, particularly in the growth season, with set dates to provide sufficient notice to volunteers.

Whilst The Mayals Ward have agreed dates for weeding through Cllr Nelson, Monday afternoons were proposed for West Cross.

**RESOLVED**; To hold weeding events on the 2nd and 4th Monday of each month between 1.30pm and 3.30pm commencing on Monday 14th July 2025.

**Meeting ended at 7.48pm.**

**Next Meeting 29th July 2025**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2025 am 6.30 pm

## Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Microsoft Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Sara Keeton, a Phil Keeton,

**Swyddogion yn bresennol:** Ashley Haynes – Swyddog Garddio, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**EN2506-01** **Ymddiheuriadau:** Daeth ymddiheuriadau hwyr i law gan y Cynghorydd Rebecca Fogarty

**EN2506-02** **Datganiadau o fuddiant:** Gwnaeth y Cynghorwyr Phil a Sara Keeton ddatganiad o fuddiant personol mewn perthynas â Gweithdy Plygu Perthi West Cross (cyfeiriad at eitem agenda **EN2506-09**), yn ogystal â hynny nododd y Cynghorydd Sara Keeton ei bod wedi darparu arian yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe i'r gweithdy.

**EN2506-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2025 yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2025 fel cofnod cywir.

**EN2506-04** **Camau'n codi o gyfarfodydd blaenorol**
Rhoddodd y swyddog cymorth pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' a oedd heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a chamau gweithredu newydd arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

**EN2506-05** **Swyddog yr amgylchedd – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**
Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Gorffennaf. Adroddiad wedi'i atodi.

Ni pharatowyd adroddiad swyddog yr amgylchedd ar gyfer mis Mehefin 2025. Yn absenoldeb Robert Hernando, darparodd Ashley Haynes grynodeb o'i ddyletswyddau misol. Amlinellodd Ashley, yn dilyn ymdrech ar y cyd gyda Robert i gwblhau Gerddi Jiwbilî, ei fod wedi setlo'n ôl i'w drefn reolaidd o gynnal a chadw'r gwahanol safleoedd o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls yr oedd yn gyfrifol amdanynt. Yn ogystal, tynnodd Ashley sylw at y blychau planhigion yr oedd wedi'u creu y tu allan i Ostreme. Cwestiynwyd Ashley gan gynghorwyr mewn perthynas â datblygiad Gwarchodfa Natur Norton a chyrtiau tenis Langland pan sefydlwyd bod Ashley wedi deall nad oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r cyrtiau pêl-fasged.
Yn ogystal, trafodwyd yr opsiwn o godi'r gwelyau i uchder hygyrch i bobl anabl.

**CAM GWEITHREDU:** Ynghyd â Robert Hernando, cael dyfynbrisiau ar gyfer gosod ffensys o fewn Gwarchodfa Natur Norton ac ar gyfer tirlunio arall, yn enwedig o amgylch y pwll gyda'r bwriad o gyflwyno cynnig cyllideb ym mis Medi 2025.

**CAM GWEITHREDU:** Bydd y swyddog cymorth cymunedol yn e-bostio'r clerc ac yn sefydlu dyletswyddau Ashley o fewn Cyrtiau Tenis Langland, yn enwedig y cwrt pêl-fasged. Yn ogystal, bydd yn egluro rôl Cymdeithas Tenis Cymru yn cynnal y cyrtiau hyn.

**CAM GWEITHREDU:** Ashley i ddarganfod costau ar gyfer 'codi' gwelyau trwy ddefnyddio trawstiau rheilffordd neu ddewisiadau eraill i gynorthwyo pobl anabl i gael mynediad llawn atynt.

**EN2506-06** **Swyddog yr amgylchedd – cynllun gwaith**

Gohiriwyd tan mis Gorffennaf 2025

**EN2506-07** **Diweddariad gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd**

Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, adroddiad Robert Hernando ar y mater hwn a oedd wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod. Gwnaeth yr adroddiad argraff fawr ar y pwyllgor ac roedd yn dymuno dilyn yr argymhellion. Yn ogystal, nodwyd cyfle hyfforddi posibl ar gyfer hyfforddiant Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau).

**PENDERFYNWYD:** Symud ymlaen â'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad o fis Awst 2025.

**PENDERFYNWYD:** Y clerc i asesu a oes unrhyw gyfle hyfforddi priodol i Robert ac Ashley mewn perthynas â hyfforddiant SDCau.

**EN2506-08** **Gorffennaf Di-blastig**

Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, sut yr oedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi cysylltu â nifer o fusnesau yn Abertawe, gan gynnwys y rhai ym Marchnad Abertawe, i hyrwyddo Gorffennaf Di-blastig. Cynhaliwyd trafodaeth ar y ffordd orau o gynnwys busnesau o fewn Cyngor Cymuned Mwmbwls yn y fenter hon. Oherwydd cyfyngiadau amser, byddai unrhyw gyfranogiad gan Gyngor Cymuned Mwmbwls yn gyfyngedig ond gellid ei hyrwyddo trwy gyhoeddusrwydd ac annog masnachwyr i leihau pecynnu, a siopau coffi i annog cwsmeriaid i ddod â chwpanau ail-lenwi trwy gynnig arbediad ychwanegol wrth brynu'r diodydd.

**PENDERFYNWYD:** Bydd y Cynghorydd Phil Keeton yn cysylltu â'r Cynghorydd Fogarty ynghylch siopau gan gynnwys Marks and Spencer a'r Co-op yn lleihau eu deunydd pacio.

**GWEITHREDU:** Dylai'r swyddog cymorth pwyllgorau e-bostio'r clerc a chanfod a oes gan Claire Anderson, y swyddog digwyddiadau, y gallu ar fyr rybudd i hyrwyddo digwyddiad o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls i annog mwy o bobl i ddefnyddio cwpanau coffi y gellir eu hailddefnyddio fel y manylir uchod.

**EN2506-09** **Gweithdy plygu perthi West Cross (trafodaeth ar ariannu)**

Nododd y Cynghorydd Phil Keeton y cyfleoedd ar gyfer plygu perthi yn ardal West Cross a diolchodd i'r Cynghorydd Sara Keeton am ei chysylltiad â Chyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae amcangyfrif cost bras iawn yn awgrymu y bydd angen rhwng £3,000 a £4,000 ar gyfer y prosiect a fyddai'n cynnwys gwirfoddolwyr yn cynorthwyo. Mae Catherine Thomas o Gyngor Dinas a Sir Abertawe wedi nodi y dylai rhwng 60 a 70% fod ar gael drwy arian cyfatebol. Yn ogystal, mae'r cynghorwyr Sara Keeton a Rebecca Fogarty wedi cynnig darparu £250 yr un o'u lwfansau Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae'r cynghorwyr Phil Keeton, Dave Lewis a Pam Erasmus hefyd wedi nodi y byddant yn darparu £125 o'u lwfansau Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

Trafodwyd y mater o brynu eitemau penodol, fel bilwgau a fyddai'n ddefnyddiol yn y tymor hir, ynghyd ag anhawster storio eitemau o'r fath pan fo lle storio yn gyfyngedig.

Cytunodd y pwyllgor fod hwn yn brosiect gwerth chweil a oedd yn gofyn am ddod o hyd i ddulliau costio ychwanegol.

**PENDERFYNWYD:** y dylai'r Cynghorydd Phil Keeton ddarganfod costau, ar ôl cysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe a dod â'r prosiect yn ôl i'r pwyllgor ym mis Hydref gyda'r bwriad o gyflwyno ffurflen â chynnig ar gyfer y gyllideb.

**EN2505-10** **Strydoedd sy'n Hybu Gwenyn (amserlen chwynnu)**

Nododd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, bwysigrwydd dyddiadau chwynnu rheolaidd, yn enwedig yn y tymor tyfiant, gyda dyddiadau penodol i roi digon o rybudd i wirfoddolwyr.

Er bod ward Mayals wedi cytuno ar ddyddiadau ar gyfer chwynnu trwy'r Cynghorydd Nelson, cynigiwyd prynhawniau Llun ar gyfer West Cross.

**PENDERFYNWYD:** Cynnal digwyddiadau chwynnu ar yr 2il a'r 4ydd dydd Llun o bob mis rhwng 1.30pm a 3.30pm gan ddechrau ddydd Llun 14 Gorffennaf 2025.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.48pm.**

**Cyfarfod nesaf 29 Gorffennaf 2025**